

Polisi Gwirfoddoli: Gwasanaeth Llyfrgelloedd Rhondda Cynon Taf

Mae'r polisi hwn yn nodi'r egwyddorion ar gyfer gwirfoddoli â Gwasanaeth Llyfrgelloedd Rhondda Cynon Taf. Mae'r polisi'n berthnasol i bawb sy'n rhan o'r sefydliad, gan gynnwys gwirfoddolwyr, staff, a'r rheiny sydd wedi cael eu hethol a'u penodi mewn swyddi â chyfrifoldeb. Bydd y polisi'n cael ei adolygu'n flynyddol er mwyn sicrhau ei fod yn diwallu anghenion Gwasanaethau'r Llyfrgelloedd Rhondda Cynon Taf a'u gwirfoddolwyr.

Beth rydyn ni'n ei wneud?

Mae llyfrgelloedd â swyddogaeth hanfodol wrth gyfrannu at les a ffyniant unigolion a chymunedau. Maen nhw'n cynnig addysg, adloniant, boddhad a chymorth ymarferol i bob rhan o'r gymuned: Maen nhw'n fannau cyhoeddus sydd ar gael ac yn hygyrch i bawb.

Mae Gwasanaeth Llyfrgelloedd Rhondda Cynon Taf yn gyfrifol am gynnal:

- 13 o lyfrgelloedd statig sy'n darparu cyfrifiaduron i'r cyhoedd, mynediad i'r we a chyfleusterau argraffu. 3 Llyfrgell gyfeirio ar gyfer gwarchod dogfennau hanesyddol lleol ynghyd â darllenwyr microffilm/micro-luniau.
- Llyfrgell Stoc Wrth Gefn sydd ar agor i'r cyhoedd yn ddyddiol
- 4 o lyfrgelloedd teithiol sy'n ymweld ag ardaloedd mwy anghysbell lle nad oes llyfrgelloedd.
- Gwasanaeth sy'n darparu deunydd fel llyfrau print bras a llyfrau llafar i bobl sy'n gaeth i'r tŷ oherwydd oedran, salwch a.y.b.
- Gwasanaeth Llyfrgelloedd i Ysgolion sy'n helpu ysgolion i ddatblygu eu hadnoddau i gefnogi'r cwricwlwm ac anghenion dysgu pob disgybl.
- Gwasanaeth casgliadau ar adnau sy'n darparu deunydd i safleoedd sydd ddim yn llyfrgelloedd, fel cartrefi nyrsio at ddefnydd y preswylwyr.

Beth yw gwirfoddolwr?

Mae gwirfoddolwyr yn bobl sydd, yn ddi-dâl ac yn ddigymell, yn cyfrannu eu hamser, eu hegni a'u sgiliau er budd y Llyfrgell a'r gymuned ehangach. Mae gwirfoddoli yn fynegiad o ddinasyddiaeth. Mae gwirfoddoli o fudd i'r gwirfoddolwr, y llyfrgelloedd a'r gymuned ehangach. Dyma gyfle i ddatblygu sgiliau newydd, ennill profiad a helpu unigolion i fanteisio ar eu potensial llawn.

Gall unrhyw un wirfoddoli, dim ots beth yw ei ethnigrwydd, crefydd, rhyw neu duedd rhywiol. Rhaid bod yn 16 oed o leiaf, a does dim cyfyngiad oedran uchaf. Bydd raid i wirfoddolwyr sydd o dan 18 oed sicrhau caniatâd gan riant neu warcheidwad. Mae'n bosibl y bydd pobl iau yn gwirfoddoli drwy leoliadau profiad gwaith dan nawdd ysgolion neu sefydliadau addysg.

Pam rydym ni'n gymryd ar gwirfoddolwyr?



Gall gwirfoddolwyr gefnogi a gwella'n llyfrgelloedd a dod â llawer o fanteision i ddefnyddwyr llyfrgelloedd, y staff a'r bobl leol. Maen nhw'n lleoedd cymunedol gwerthfawr a bydd mwy o gyfranogiad gan bobl leol wrth ddarparu gwasanaethau llyfrgell yn sicrhau y byddan nhw'n parhau i fod wrth wraidd eu cymunedau, gan ddiwallu anghenion amrywiol y trigolion a gwella cyfranogiad y gymuned â help gwirfoddolwyr.

Swyddogaethau Gwirfoddoli

Mae gwirfoddoli'n weithgaredd cyfreithlon ac angenrheidiol sy'n cael ei gefnogi'n llawn gan Wasanaethau'r Llyfrgelloedd Rhondda Cynon Taf. Dim bwriad gwirfoddoli yw cymryd lle cyflogaeth â thâl. Bydd gwirfoddolwyr yn ategu staff cyflogedig ond ddim yn eu disodli nhw. Bydd y camau priodol yn cael eu cymryd i sicrhau bod staff cyflogedig yn deall swyddogaeth y gwirfoddolwyr yn llawn er mwyn iddynt ddatblygu perthnasau gwaith effeithiol â'i gilydd.

Mae llawer o gyfleoedd ar gyfer gwirfoddolwyr yn y Gwasanaeth Llyfrgelloedd. Dyma rai o'r gweithgareddau y gall gwirfoddolwyr ymgymryd â nhw:

- Helpu cwsmeriaid i ddefnyddio'r cyfrifiaduron
- Helpu gyda gwaith ymchwil hanes y teulu
- Helpu staff i drefnu stoc y llyfrgell
- Cynnal sesiynau sgwrsio am lyfrau dros baned
- Helpu gyda sesiynau amser stori ar gyfer cwsmeriaid cyn-ysgol
- Helpu gyda Sialens Ddarllen yr Haf
- Cynnal grwpiau darllen
- Sesiynau adrodd stori i oedolion ag anawsterau dysgu
- Helpu i drefnu gwerthiannau o hen stoc y llyfrgell

Mae'r rhain i gyd rolau pwysig sy'n helpu nid yn unig yn y llyfrgell, ond mae'r gymuned yn ogystal.

Recriwtio gwirfoddolwyr

Mae cyfleoedd gwirfoddoli'n cael eu hysbysebu ar wefan Cyngor Rhondda Cynon Taf wrth iddyn nhw godi, neu mewn llyfrgelloedd lleol / safleoedd eraill y Cyngor. Byddan nhw hefyd yn cael eu hysbysebu yn y Biwro Gwirfoddoli Lleol. Bydd gofyn i bob darpar wirfoddolwr wneud y canlynol:

- Llenwi ffurflen gais
- Darparu manylion canolwyr
- Mynd i gyfweiliad anffurfiol
- Cael ei ymchwilio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd
- Arwyddo Cytundeb Gwirfoddolwr
- Ymrwymo i gyfnod prawf o 6 wythnos a fydd yn rhoi cyfle iddyn nhw ddod i wybod mwy am y swydd, i'r trefniadau gael eu hegluro a'i addasrwydd ei asesu

Mewn rhai amgylchiadau, gall gwirfoddoli effeithio ar y budd-daliadau sy'n cael eu derbyn. Rydyn ni'n cynghori pob darpar wirfoddolwr sy'n hawlio budd-daliadau i wirio'i amgylchiadau unigol. Fydd Cyngor Rhondda Cynon Taf ddim yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am hyn.



Y Gymraeg

Yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, mae'n ofynnol i'r Cyngor fodloni safonau statudol mewn perthynas â'r Gymraeg. Yn unol â hynny, bydd hi'n ofynnol i rai gwirfoddolwyr weithio drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.

Hyfforddiant a Datblygiad

Bydd y Cyngor yn sicrhau ei fod yn gwneud i bob gwirfoddolwr deimlo'n gartrefol a bydd proses ymsefydlu anffurfiol yn ofynnol ar gyfer pob swyddogaeth. Gall hyn fod cyn i'r gwirfoddoli ddechrau neu ar y diwrnod cyntaf, a bydd yn cwmpasu'r holl wybodaeth, y polisiau a'r gweithdrefnau hanfodol er mwyn arfogi gwirfoddolwyr â'r wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol i gyflawni eu swyddi yn fedrus ac yn ddiogel. Gan ddibynnu ar y prosiect, gall hyfforddiant fod ar sail un i un wrth wneud y swydd, neu drwy ddiwrnod o hyfforddiant dwys mewn grŵp. Mae'n Cyfrifoldeb y gwirfoddolwr i fynychu hyfforddiant perthnasol yw.

Goruchwyliaeth a Chymorth

Bydd pob gwirfoddolwr ag aelod enwebedig o staff i ddarparu cyngor ac arweiniad a chynorthwyo â chyflawni tasgau'n effeithiol reolaidd. Yn gyffredinol, Llyfrgellydd y Gangen fydd â'r cyfrifoldeb yma. Bydd pob gwirfoddolwr yn cael gwybod manylion cyswllt ei aelod enwebedig o staff.

Yswiriant

Bydd pob gwirfoddolwr wedi'i yswirio o dan Yswiriant Atebolrwydd Cyflogwyr Cyngor Rhondda Cynon Taf ac Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus. Nid yw'r sefydliad yn yswirio eiddo personol y gwirfoddolwyr rhag colled neu ddfrod.

Treuliau

Bydd gwirfoddolwyr yn derbyn treuliau os yw defnyddio car yn hanfodol ar gyfer y swydd. Mae treuliau teithio yn cael eu prosesu gan Adran Gyllid y Cyngor. Cân nhw eu talu ar gyfraddau cyfredol Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a byddan nhw'n cael eu had-dalu ar ôl cyflwyno'r ffurflen briodol. I allu hawlio costau teithio pan fyddwch chi'n defnyddio'ch car eich hun, bydd angen i chi fod ag yswiriant busnes.

Gall y Goruchwylwr Gwirfoddoli roi rhagor o fanylion am hawlio treuliau teithio a threuliau eraill sy'n cael eu cytuno ymlaen llaw, ac sy'n gysylltiedig â'r swydd.

Iechyd a Diogelwch

Mae darparu a chynnal amgylchedd diogel ar gyfer ei wirfoddolwyr yn flaenoriaeth i'r Cyngor. Bydd gwirfoddolwyr yn derbyn hyfforddiant iechyd a diogelwch priodol yn rhan o'r broses ymsefydlu a hyfforddi.

Bydd goruchwylwyr gwirfoddoli'n cynnal asesiadau risg ar yr holl weithgareddau mae gwirfoddolwyr yn ymgymryd â nhw. Mae gan



wirfoddolwyr hefyd ddyletswydd i ofalu amdanyn nhw'u hunain ac am bobl eraill o'u cwmpas.

Cyfleoedd Cyfartal

Mae'r Cyngor yn gweld gwerth mewn amrywiaeth ymhlith ei staff cyflogedig a'i wirfoddolwyr, ac yn croesawu ac yn annog ceisiadau gan groestoriad eang o gefndiroedd a phrofiadau. Yn ogystal â hynny, mae'n sicrhau bod syniadau, galluoedd ac anghenion amrywiol yn cael eu gwerthfawrogi. Caiff cyfleoedd gwirfoddoli eu hyrwyddo'n eang mewn ffyrdd sy'n eu gwneud nhw'n hygyrch i ystod amrywiol o bobl.

Cyfrinachedd

Mae gwirfoddolwyr yn ddarostyngedig i'r un rheolau sy'n ymwneud â chyfrinachedd ag aelodau staff cyflogedig. Bydd manylion polisi cyfrinachedd y Cyngor yn cael eu darparu yn ystod y broses ymsefydlu.

Diogelu Gwybodaeth a Chyfathrebu

Bydd gwybodaeth bersonol sy'n cael ei chofnodi am wirfoddolwyr yn cael eu cynnal a'u cadw gan ddilyn mesurau diogelu priodol ar gyfer cyfrinachedd ac yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data.

Bydd disgwyl i wirfoddolwyr roi unrhyw waith hawlfraint gwreiddiol sy'n cael eu creu ganddyn nhw i'r llyfrgell, tra'u bod nhw'n gwirfoddoli. Bydd gofyn iddyn nhw lofnodi cytundeb hawlfraint ar gyfer prosiectau pwysig.

Os yw'r wasg neu unrhyw ffynhonnell gyfryngol arall yn gofyn i wirfoddolwr am farn neu i roi sylw, dylai gwirfoddolwyr eu cyfeirio nhw at y Goruchwyliwr Gwirfoddoli. Dylai pob cyfathrebu/gohebiaeth fynd trwy Swyddfa Wasg y Cyngor.

Ymgartrefu gwahaniaethau a gorffen fel gwirfoddolwr

Nod y Cyngor yw trin pob gwirfoddolwr yn deg, yn wrthrychol ac yn gyson. Os ydy problem yn codi, dylid casglu'r wybodaeth a'r ffeithiau perthnasol cyn gynted â phosib er mwyn mynd i'r afael â'r broblem yn amserol. Bydd y gwirfoddolwr yn cael cefnogaeth i ddatrys y sefyllfa'n anffurfiol. Os nad oes modd mynd i'r afael â'r sefyllfa mewn ffordd anffurfiol, bydd y gŵyn yn cael ei gyfeirio at bolisiâu a gweithdrefnau cwynion ehangach Rhondda Cynon Taf. Os ydy ymddygiad gwirfoddolwr yn parhau i fod yn annerbyniol, mae'n bosib y bydd raid iddyn nhw newid ei swyddogaeth neu adael yn barhaol.

Caiff gwirfoddolwyr ddisgwyl i'w barn gael ei chlywed, ei nodi a'i ddilyn yn brydlon, gyda'r nod o gyrraedd ateb cadarnhaol a chyfeillgar. Bydd unrhyw gŵyn sy'n cael ei chodi yn cael ei thrin yn unol â pholisi a chanllawiau Cyngor Rhondda Cynon Taf. Mae'r Cyngor yn cydnabod y caiff gwirfoddolwyr ddod â'i swyddi i ben ar unrhyw adeg. Bydd gwirfoddolwyr yn cael eu gwahodd i gyfweiliad ymadael anffurfiol er budd y rhaglen gwirfoddoli yn y dyfodol. Rhaid i unrhyw offer, eiddo a chardiau adnabod (ac ati) y Cyngor gael eu dychwelyd.



Caiff y Cyngor hefyd ddod â'r trefniant i ben ar unrhyw adeg os yw'r prosiect yn dod i ben neu os nad yw'r trefniant yn cael ei weld yn fuddiol i bawb mwyach.

Siarter Gwirfoddoli

Mae'r Cyngor yn disgwyl i wirfoddolwyr wneud y canlynol:

- Gweithio gyda ni i gyflawni ein nodau ac amcanion hyd eithaf eu gallu
- Gweithio'n annibynnol a heb oruchwyliaeth pan fo angen
- Bod yn ddibynadwy
- Cyflawni'u swyddi hyd eithaf eu gallu fel sydd wedi'i nodi yn y disgrifiadau swydd
- Trin gwirfoddoli yn weithgaredd buddiol i bawb
- Rhoi rhybudd rhesymol, lle bynnag y bo'n bosibl, os na allan nhw ymgymryd â gweithgareddau cytunedig
- Parchu cyfrinachedd, cydraddoldeb a gofynion iechyd a diogelwch
- Bod yn onest
- Gweithredu o dan gyfarwyddyd y goruchwyliwr gwirfoddoli.
- Bod yn bresennol yn y sesiwn/sesiynau ymsefydlu perthnasol, a'r sesiynau hyfforddiant, adborth a chymorth
- Gosod delwedd gadarnhaol o'r Cyngor bob amser
- Dweud wrth y Cyngor ymlaen llaw os ydyn nhw am roi'r gorau i'w swydd wirfoddol
- Rhannu unrhyw bryderon sy'n ymwneud â'u gwaith mor fuan â phosibl, gyda'r person priodol

Mae'r Cyngor yn cydnabod hawl gwirfoddolwyr ynglŷn â'r canlynol:

- Gwybod yr hyn sydd i'w ddisgwyl ganddyn nhw, a'r hyn sydd ddim i'w ddisgwyl
- Ymgymryd â thasgau maen nhw â'r gallu i'w cyflawni ac sydd o fudd i'r gwasanaeth
- Cael eu trin yn deg ac yn gyfartal heb wahaniaethu
- Derbyn hyfforddiant / hyfforddiant ymsefydlu defnyddiol ac addas
- Derbyn cefnogaeth a goruchwyliaeth ar bob adeg, a bod â pherson enwebedig y gallan nhw droi ato wrth weithio ar y safle.
- Derbyn treuliau perthnasol cytunedig
- Bod ag yswiriant
- Cael eu gwerthfawrogi
- Cyfleoedd datblygu personol

